# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 23 Mai 2017

Amser y cyfarfod: 12.30

## 71(v4)

### Datganiad ar yr ymosodiad ym Manceinion

## 1 Teyrngedau i'r cyn Brif Weinidog Rhodri Morgan

*Yn dilyn yr eitem hon, bydd y Llywydd yn gohirio'r cyfarfod am gyfnod byr.*

## 2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig i Drwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat

(45 munud)

## 5 GOHIRIWYD – Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Plant yn Gyntaf / Children First

## 6 SYMUDWYD I 24 MAI – Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Asesu ar gyfer Dysgu – dull gwahanol yng Nghymru

## 7 SYMUDWYD I 24 MAI – Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Ymgynghoriad ar God Erlyn Llywodraeth Cymru

## 8 Dadl: Presgripsiynau Cymdeithasol

(60 munud)

**NDM6314** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod presgripsiynu cymdeithasol yn ddull ymyrraeth pwysig sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru;

2. Yn ystyried y blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol ymhellach ledled Cymru; a

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i dreialu dull cenedlaethol o bresgripsiynu cymdeithasol mewn perthynas ag iechyd meddwl.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi diffiniad y Kings Fund o bresgripsiynu cymdeithasol.

'Diffiniad y King's Fund o bresgripsiynu cymdeithasol'

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 24 Mai 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Mai 2017 i'w hateb ar 23 Mai 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro dros y 12 mis nesaf? OAQ(5)0610(FM)

**2. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i economi Gogledd Cymru? OAQ(5)0611(FM)

**3. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** Faint o arian cyhoeddus a gafodd ei fuddsoddi yn rhwydwaith rheilffordd Cymru a'r Gororau yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? OAQ(5)0613(FM)**R**

**4. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran trafnidiaeth integredig yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0614(FM)

**5. Michelle Brown (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd canlyniad etholiad cyffredinol y DU yn ei chael ar bolisïau Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0622(FM)

**6. Hannah Blythyn (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd Blwyddyn Chwedlau o fudd i ogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0617(FM)

**7. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau meddygol meddygon teulu yn Sir Drefaldwyn? OAQ(5)0621(FM)

**8. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo llesiant staff yn sector cyhoeddus Cymru? OAQ(5)0615(FM)

**9. Nathan Gill (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fargen dwf Gogledd Cymru? OAQ(5)0612(FM)

**10. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau economaidd ar gyfer de-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0616(FM)

**11.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyfradd treth incwm y mae'r Prif Weinidog yn disgwyl i bobl yng Nghymru sy'n ennill dros £80,000 y flwyddyn ei thalu o fis Ebrill 2019 ymlaen? OAQ(5)0619(FM)**W**

**12.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y broses o asesu cynigion ar gyfer gorsafoedd trenau newydd yng Nghymru? OAQ(5)0620(FM)

**13.** **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa ddatblygiadau a fu i wireddu bwriad y Prif Weinidog i sefydlu confensiwn cyfansoddiadol ar ddyfodol y DU wrth iddi ymadael â'r UE? OAQ(5)0168(FM)**W**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 6 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Inswleiddio Waliau Ceudod yng Nghymru – y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru (45 munud)
- Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i dderbyn y penderfyniad ariannol mewn cysylltiad â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (5 munud)
- Dadl: Yr adolygiad o dirweddau dynodedig yng Nghymru (60 munud)
- Dadl: Y Fframwaith Nyrsio Ysgolion (60 munud)

**Dydd Mercher 7 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

**Dydd Mawrth 13 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Fframwaith Polisi Treth (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth ar gyfer Cyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Dyfodol Llwyddiannus: Y Diweddaraf ynglŷn â Materion Digidol (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: Y Diweddaraf ynglŷn â Band Eang Cyflym Iawn (45 munud)
- Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 14 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod – y Bil Awtistiaeth (Cymru) (Paul Davies) (60 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru (60 munud)
- Dadl Fer - Jeremy Miles (Castell-nedd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 20 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: TB Buchol (45 munud)
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2017 (15 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) (120 munud)

**Dydd Mercher 21 Mehefin 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ei adroddiad ar ddyfodol polisïau amaethyddol a datblygu gwledig yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl Fer – Vikki Howells (Cwm Cynon) (30 munud)